Shared Regulatory Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

**Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Cynghorau Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Sefydliadau Lletya Cŵn – Amodau Trwydded**

**Fersiwn 1 diweddarwyd 14.2.23**

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Oni bai y nodir yn wahanol, mae'r amodau hyn yn berthnasol i bob adeilad ac ardal y mae gan gŵn fynediad iddynt a/neu sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas â lletya cŵn.

**Mae'r defnydd o'r term 'cwb' yn cyfeirio at ardaloedd lle mae cŵn yn cysgu ac yn ymarfer corff ynddynt**

## 2. Arddangos Trwydded

**2.1** Rhaid i gopi o'r drwydded a'i hamodau gael ei harddangos i'r cyhoedd mewn safle amlwg ac addas yn, ar, neu yn ardal y sefydliad lletya.

## 3. Cymeradwyaeth Awdurdod

**3.1** Ni chaniateir i anifeiliaid ar wahân i gŵn gael llety yn y cyfleusterau trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol.

## 4. Adeiladau

**Rhaid cadw cŵn mewn llety sy'n briodol o ran adeiledd, maint yr anheddau, dillad gwely, cyfleusterau ymarfer corff, tymheredd a gwres, goleuadau, awyru, glendid, a gwaredu gwastraff.**

<u>**Cyffredinol**</u>

**4.1** Rhaid i'r sefydliad bob amser gael ei gynllunio a'i weithredu yn unol â chynllun cymeradwy sydd wedi'i atodi i'r drwydded.

**4.2** Ni ddylid gwneud unrhyw welliannau heb gymeradwyaeth yr awdurdod lleol. Cyn cynllunio unrhyw newidiadau, rhaid cyflwyno cynlluniau i swyddog trwyddedu'r awdurdod lleol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo ganddo.

**4.3** Rhaid i bob arwyneb mewnol a ddefnyddir i adeiladu waliau, lloriau, parwydydd, drysau a fframiau drws fod yn hirhoedlog, llyfn, anhreiddiadwy a hawdd ei lanhau.

**4.4** Lle mae pren wedi'i ddefnyddio wrth adeiladu, rhaid iddo fod yn llyfn, a bod wedi'i drin i'w wneud yn anhreiddiadwy. Ni ddylid defnyddio pren yn yr adeiladwaith allanol - y waliau, y lloriau, parwydydd, fframiau'r drysau neu ddrysau yn ardal cybiau'r cŵn. Ni ddylai unrhyw ran o'r adeiladwaith ymestyn allan mewn ffordd a allai achosi anaf.

**4.5** Rhaid i ddeunydd ffensio fod yn ddiogel a chael ei wirio a'i gynnal a chadw yn rheolaidd.

**4.6** Rhaid inswleiddio ardaloedd cysgu'r cybiau fel nad ydynt yn rhy oer neu'n rhy gynnes.

**4.7** Rhaid adeiladu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch y ci bob amser.

**4.8** Rhaid trin yr holl bren sydd yn yr awyr agored i'w atal rhag pydru e.e. wedi'u tanaleiddio. Dim ond nwyddau nad ydynt yn wenwynig i anifeiliaid y dylid eu defnyddio.

**4.9** Dylai pob ymarfer corff 'oddi ar y tennyn' gael ei gytuno ymlaen llaw gyda'r perchennog ac mae rhaid i berimedr yr ardal fod o leiaf 8 troedfedd o uchder a chael perimedr sicr pellach ar gyfer y sefydliad.

**4.10** Drwy gydol eu harhosiad, mae rhaid i bob ci gael coler torri'n rhydd addas, neu dag gydag enw'r sefydliad a'r rhif ffôn arno.

**4.11** Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol ar unwaith am unrhyw farwolaethau, anafiadau difrifol, achosion o glefydau neu gŵn sydd wedi dianc.

**Waliau a Pharwydydd**

**4.12** Rhaid i waliau y mae cŵn yn dod i gysylltiad â nhw fod o ddeunydd llyfn ac anhreiddiadwy, a rhaid bodd modd eu golchi'n hawdd. Lle mae'r waliau wedi'u gwneud o goncrid, briciau neu flociau adeiladu, rhaid eu selio i'w gwneud yn llyfn ac anhreiddiadwy, a'u hail-selio os oes angen. Rhaid i unrhyw bren sy'n cael ei

ddefnyddio gael ei orchuddio a'i warchod gan ddeunydd anhreiddiadwy. Nid yw paentio / trin pren yn dderbyniol.

Nid yw pren yn addas ar gyfer adeiladau newydd.

**4.13** Dylid rhoi cilfwâu rhwng adrannau fertigol a llorweddol. Os yw hynny'n anymarferol mewn safleoedd sy'n bodoli eisoes, dylid selio pob uniad.

**4.14** Rhaid i bob wal bared rhwng cybiau fod o adeiladwaith cryf i uchder o 1.2m (4 troedfedd) o leiaf.

**4.15** Mewn adeiladau newydd, rhaid i rannau isaf y parwydydd rhwng ardaloedd ymarfer/rhedeg fod o wneuthuriad solet.

## Lloriau

**4.16** Dylai lloriau pob adeilad, ardal ymarfer corff unigol a chwb fod o ddeunyddiau llyfn, anhreiddiadwy, y gellir eu golchi a'u diheintio'n hawdd, ac mewn cybiau newydd dylent ymgorffori croen atal lleithder.

**4.17** Dylai lloriau'r cybiau a'r ardaloedd ymarfer unigol gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw yn y fath gyflwr fel eu bod yn atal pyllau rhag cronni.

**4.18** Mewn adeiladau newydd, dylai'r lloriau gael eu gosod i fod yn gwyro o leiaf 1 mewn 80, yn arwain at sianel ddraenio fas, neu sianel ddraenio ddofn wedi'i gorchuddio'n effeithiol.

**4.19** Dylid draenio ardaloedd ymarfer cymunedol yn addas.

## Nenfydau

**4.20** Dylid medru golchi a diheintio nenfydau'n hawdd.

## Drysau

**4.21** Dylai drysau'r cybiau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll cael eu taro a'u crafu, a dylid bod modd eu cloi'n ddiogel.

**4.22** Pan ddefnyddir bariau a fframiau metel, dylent fod o led addas (tua 10-14), yn ddigonol i atal cŵn rhag dianc, neu gael eu caethiwo. Lle mae'r ymylon yn fetel, ni ddylai fod perygl o achosi anaf i'r ci.

**4.23** Dylid creu agoriadau i ddrysau fel na rwystrir dŵr/gwastraff rhag gadael, na chasglu gan fod y mynediad yn anhygyrch.

**Ffenestri**

**4.24** Dylai pob ffenestr sy'n achosi risg fod yn amhosib dianc ohoni ar bob adeg.

**4.25** Rhaid bod yna ffenestri y gellir eu hagor i gefnogi awyru da.

**Draeniau**

**4.26** Rhaid i'r sefydliad fod wedi'i gysylltu â'r brif system ddraeniau, neu system waredu carthffosiaeth leol gymeradwy.

**Goleuadau**

**4.27** Pan mae'n olau yn ystod y dydd, rhaid darparu golau yn yr ardaloedd ymarfer corff a chysgu fel bod pob rhan yn gwbl weladwy i'r cŵn. Lle mae'n ymarferol, dylai'r golau hwn fod yn olau naturiol.

**4.28** Rhaid darparu golau ychwanegol digonol drwy'r sefydliad i gyd.

**Awyru**

**4.29** Dylid awyru'r holl ardaloedd mewnol heb achosi gormod o ddrafft lleol yn yr ardaloedd cysgu a gorffwys.

**Cynnal a Chadw**

**4.30** Dylid cynnal a chadw ac atgyweirio'r holl sefydliad yn rheolaidd.

## 5. Nifer yr Anifeiliaid

**Nifer y cŵn a ganiateir**

**5.1** Mwyafswm y cŵn y gellir eu cadw ar unrhyw un adeg yw **(I'W BENDERFYNU GAN YR AWDURDOD LLEOL)**. Bydd y nifer a ganiateir yn cael ei arddangos yn glir ar y drwydded.

**5.2** Dylai pob ci gael cwb ar wahân, ac eithrio cŵn o'r un cartref a all rannu cwb o faint digonol, gyda chaniatâd ysgrifenedig perchennog y ci.

**5.3** Gellir darparu cybiau dros dro, i gadw cŵn am ddim mwy na 24 awr. Rhaid i gybiau dros dro, os cânt eu darparu, gydymffurfio â'r amodau ar gyfer y prif gybiau. Rhaid i gybiau dros dro fod o leiaf 2.3 metr sgwâr (25 troedfedd sgwâr).

**5.4** Ni chaniateir i anifeiliaid ar wahân i gŵn gael llety yn y cyfleusterau trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol.

**5.5** Lle cymeradwyir anifeiliaid eraill i gael eu lletya o fewn y cyfleusterau trwyddedig rhaid eu cadw mewn ardal ar wahân i'r cybiau cŵn a rhaid gwneud pob darpar gleient yn ymwybodol gyda chytundeb wedi'i lofnodi.

**5.6** Rhaid i unrhyw gŵn strae a dderbynnir gan y cybiau gael eu cadw mewn ardal ar wahân i'r cŵn sy'n lletya.

**Maint y cwb, ei gynllun a'r cyfleusterau ymarfer corff.**

**5.7** Dylai fod gan bob cwb ardal gysgu o 1.9 metr sgwâr (20 troedfedd sgwâr) o leiaf.

**5.8** Rhaid darparu gwelyau cyffyrddus i'r cŵn y gellir eu golchi a'u diheintio yn hawdd ac yn ddigonol. Ni ddylid rhoi'r gwelyau lle mae drafftiau. Dylid cynnal a chadw deunydd y gwelyau i'w cadw'n lan, yn sych ac yn rhydd o barasitiaid. Argymhellir y dylai'r perchennog ddarparu ei welyau ei hun, ond nid yw'n orfodol.

**5.9** Mewn cybiau newydd, dylai fod gan bob cwb ardal ymarfer corff o 2.46 metr sgwâr (26 troedfedd sgwâr) (i gŵn hyd at 24 modfedd o uchder wrth yr ysgwydd) neu 36 troedfedd sgwâr i gŵn mwy, sydd ar wahân i'r ardal gysgu ac yn benodol i'r cwb hwnnw, i'r ci ei ddefnyddio'n rhydd ar unrhyw adeg ac eithrio yn y nos.

**5.10** Rhaid i safleoedd trwyddedig cyfredol nad ydynt yn bodloni'r dimensiynau gofynnol ar gyfer ardaloedd ymarfer corff ddarparu cyfleusterau ymarfer corff amgen e.e. amseroedd cerdded wedi'u trefnu a/neu libart allanol – rhaid cynnal a llofnodi cofnodion ymarfer corff a rhaid sicrhau bod cofnodion o'r fath ar gael ar gais.

**5.11** Rhaid i bob cwb fod yn 1.8m (6 troedfedd) o uchder o leiaf, i'w gwneud hi'n hawdd i'r staff fynd i mewn i'w lanhau.

**5.12** Rhaid i'r cybiau a'r ardaloedd ymarfer corff agor allan i goridorau neu ardaloedd diogel fel na all y cŵn ddianc o'r safle.

**5.13** Ni ddylid defnyddio'r ardaloedd ymarfer corff fel rhai i'r cŵn gysgu ynddynt.

## 6. Ymarfer Corff

**6.1** Dylid ymarfer y cŵn yn unol â dymuniadau'r perchennog. Os yw ci yn cael ei hebrwng o'r safle, rhaid iddo fod ar dennyn oni bai fod y perchennog wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r sefydliad wneud fel arall.

**6.2** Rhaid bod mynediad uniongyrchol i ardal addas yn yr awyr agored. Dim ond ar gyfer y cybiau y dylid defnyddio'r ardal hon, a dylid ei chadw'n lân bob amser.

**6.3** Dylai ardal ymarfer corff y safle ac unrhyw ardal arall y gallai'r cŵn gael mynediad iddi fod yn hollol ddiogel, heb wrthrychau miniog peryglus, neu bethau'n ymestyn allan yn y fath fodd. Dylid medru cloi pob gât.

**6.4** Dylai pob ci wisgo coler a thag adnabod yn ystod ei amser yn lletya. Rhaid i'r tag ddangos enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cybiau.

**6.5** Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu os yw ci ar goll, erbyn y diwrnod gwaith nesaf.

## 7. Rheolaeth

**<u>Hyfforddiant</u>**

**7.1** Dylid darparu polisi hyfforddi staff ysgrifenedig. Dylid medru dangos bod staff wedi'u hyfforddi mewn ffordd systematig.

**8. Cybiau**

**8.1** Rhaid i gyfleusterau gwresogi fod ar gael yn y cwb a rhaid eu defnyddio yn ôl gofynion y ci unigol.

**8.2** Ym mhob cwb, rhaid bod gan y ci fynediad cyson at ran sy'n 10°c (50°F) o leiaf, ac ni ddylai fod yn fwy na 26°c (78°F).

**8.3** Mae'n ofynnol cael thermomedrau digidol (sy'n dangos y darlleniad isaf ac uchaf) ym mhob uned a chofnodi tymheredd ddwywaith y dydd, ar amser oerach a phoethach i sicrhau bod y tymereddau a ddymunir yn cael eu bodloni. Rhaid cymryd camau ar unwaith i unioni unrhyw rai nad ydynt yn cydymffurfio.

**Glendid**

**8.4** Dylid cadw pob cwb, coridor, ardal gyffredin, cegin ac ati yn lân ac yn rhydd rhag casgliadau o faw a llwch. Dylid eu cadw yn y fath fodd fel bod modd rheoli clefydau a chadw cŵn yn gysurus.

**8.5** Dylid golchi pob cwb sydd â chi ynddo, bob dydd. Dylid symud yr holl garthion a deunydd solet o bob ardal a ddefnyddir gan gŵn o leiaf ddwywaith y dydd ac yn fwy aml os oes angen.

**8.6** Dylid cadw'r ardaloedd lle mae gwelyau yn lân ac yn sych bob amser.

**8.7** Rhaid i bob cwb gael ei lanhau'n drwyadl, ei ddiheintio a'i sychu ar ôl i gi ei adael. Rhaid glanhau a diheintio pob gwely a deunyddiau eraill yr adeg honno.

**8.8** Rhaid i'r diheintydd fod wedi'i gymeradwyo gan DEFRA a rhaid iddo fod yn addas ac yn benodol i'r clefydau mewn perthynas â chŵn a chael ei gytuno gan y swyddog awdurdod lleol.

**8.9** Dylid darparu cyfleusterau i dderbyn, storio a gwaredu'r holl wastraff yn briodol. Dylid gwahanu gwastraff clinigol sy'n deillio o drin cŵn gyda chlefydau heintus yn ofalus. Dylid cael gwared â gwastraff o'r fath yn derfynol drwy ei losgi. Dylai cofnodion manwl o'r broses losgi fod ar gael ar gais.

**8.10** Dylid cymryd camau i leihau'r peryglon sy'n codi o lygod mawr, pryfed a phlâu eraill o fewn y sefydliad.

## 9. Cyflenwadau Bwyd a Dŵr

**9.1** Dylai pob ci gael ei fwydo'n ddigonol gyda bwyd addas. Dylai dŵr glân fod ar gael bob amser a chael ei newid yn ddyddiol o leiaf, neu'n fwy aml os oes angen.

**9.2** Dylid gallu golchi cynhwysion bwyta ac yfed yn hawdd, a'u diheintio i rwystro croes-heintio. Dylid eu cadw mewn cyflwr glân.

**9.3** Rhaid golchi llestri bwyta ar ôl pob pryd bwyd.

**9.4** Rhaid golchi llestri yfed o leiaf unwaith y dydd.

### Cyfleusterau Cegin

**9.5** Rhaid darparu cyfleusterau unigryw, wedi'u hadeiladu a'u cynnal a'u cadw'n lân, a rhaid osgoi unrhyw bosibilrwydd o halogi bwyd.

**9.6** Rhaid darparu oergelloedd lle mae cig amrwd a chig wedi'i goginio yn cael ei gadw, a rhaid osgoi unrhyw bosibilrwydd o halogi bwyd.

**9.7** Rhaid darparu sinc gyda dŵr oer a phoeth i olchi offer bwyd a llestri bwyta ac yfed. Rhaid darparu basn golchi dwylo ar wahân gyda dŵr oer a phoeth ar gyfer defnydd staff.

**9.8** Rhaid darparu cynhwysion ar gyfer storio bwyd, a dylent fod o'r fath wneuthuriad, a chael eu cadw mewn cyflwr cystal fel eu bod yn atal pryfed a phlâu eraill.

## 10. Rheoli Clefydau a Brechu.

10.1 Rhaid cymryd camau digonol i atal a rheoli clefydau heintus ac ymledol a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith cŵn, staff ac ymwelwyr, oni bai bod eithriad fel y nodir isod.

10.2 Rhaid profi bod gan gŵn sy'n lletya neu'n byw yn y ganolfan y brechiadau cyfredol ar gyfer Clefyd y Cŵn, Hepatitis Heintus y Cŵn, (canine adenovirus), Leptospirosis (L.canicola ac L. icterohaemorragiae) a Pharfofeirws y Cŵn, peswch y cŵn ac unrhyw glefydau perthnasol eraill.

Brechiadau DHP a LEPTO:
Dylai'r cwrs brechu cyntaf fod wedi ei gwblhau o leiaf bedair wythnos cyn i'r ci gael ei letya, neu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid darparu cofnod o hyn, ar ffurf cerdyn brechu neu, yn ei absenoldeb, hanes clinigol milfeddygol printiedig, a rhaid ei gadw ar y safle drwy gydol y cyfnod y mae'r ci wedi'i letya, a dylai copi o ddogfennaeth o'r fath gael ei wneud a'i gadw am o leiaf 2 flynedd.

Dylid rhoi pigiadau atgyfnerthu yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr ac nid oes angen gwrthod lletya ci cyn belled ag y cydymffurfiwyd â hyn, neu os yw'r ci wedi'i eithrio fel y manylir isod. Os na roddwyd pigiadau atgyfnerthu o fewn y dyddiadau sydd yng nghanllawiau'r gweithgynhyrchwr, rhaid i frechiadau ddechrau eto a bydd y cyfnodau cychwynnol ar gyfer gwrthod lletya yn berthnasol.

Gall sefydliadau ddefnyddio eu disgresiwn i fynnu brechiadau 'blynyddol', neu, i dderbyn pigiadau atgyfnerthu yn unol â chanllawiau gwneuthurwr y brechiadau. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am brawf gan filfeddyg y ci ar ffurf llythyr papur pennawd, e-bost gyda chyfeiriad gwaith, neu gopi o'r hanes clinigol sy'n nodi pa fath o frechiad sydd wedi'i weinyddu a phryd y bydd yn cael ei ail-weinyddu yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr. Rhaid i chi gadw'r prawf hwn am 2 flynedd.

Brechiad Peswch y Cŵn:
Mae 2 fath o frechiadau PC.
Brechiad trwynol: Rhaid rhoi'r brechiad cychwynnol / cyntaf 3 wythnos cyn y gellir derbyn y ci i'w letya.
Os yw'n bigiad atgyfnerthu (h.y. cafodd y brechiad PC y flwyddyn flaenorol) a'i fod wedi'i dderbyn o fewn yr amserlen pigiad atgyfnerthu flynyddol, nid yw

dyddiadau lletya wedi'r brechiad yn berthnasol a gall gael ei letya. Ond os na chafodd y pigiad atgyfnerthu o fewn yr amserlen flynyddol yna bydd angen 'ailgychwyn', sy'n golygu bod y 3 wythnos gychwynnol yn berthnasol, neu, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.

Brechiad y gellir ei chwistrellu: Rhaid rhoi'r brechiad cychwynnol / cyntaf 2 wythnos cyn y gellir derbyn y ci i'w letya.
Os yw'n bigiad atgyfnerthu (h.y. cafodd y brechiad PC y flwyddyn flaenorol) a'i fod wedi'i dderbyn o fewn yr amserlen pigiad atgyfnerthu flynyddol, nid yw dyddiadau lletya wedi'r brechiad yn berthnasol a gall gael ei letya. Ond os na chafodd y pigiad atgyfnerthu o fewn yr amserlen flynyddol yna bydd angen 'ailgychwyn', sy'n golygu bod y 2 wythnos gychwynnol yn berthnasol, neu, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.
Y naill ffordd neu'r llall, rhaid i brawf o'r math o frechiad gael ei nodi'n glir ar y cerdyn brechiad neu ar y ffurflen hanes clinigol gan y filfeddygfa a'i weinyddodd, a bydd y cofnod hwn yn cael ei gadw gan y sefydliad lletya.

**10.3 Eithriadau:**
Mae adweithiau niweidiol, neu gyngor gan filfeddygon sy'n credu bod y risg i iechyd ci yn fwy wrth dderbyn brechiad na pheidio, yn brin ond yn digwydd. Felly;

PROFION TITRE ar gyfer DHP:
Bydd y rhain ond yn cael eu derbyn yn lle'r brechiadau ar gyfer cŵn sydd wedi cael adwaith niweidiol, neu, sydd wedi cael cyngor ysgrifenedig gan eu milfeddyg bod y brechiadau'n niweidiol iawn i'r ci penodol hwnnw. Mae hyn yn disodli'r brechiad DHP yn unig.
Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am brawf gan filfeddyg o ganlyniadau'r profion Titre sydd wedi'u cymryd o fewn uchafswm o 12 mis cyn y cyfnod lletya, a thystiolaeth gan y milfeddyg bod y ci wedi cael adwaith andwyol neu wedi cael cyngor na ddylai'r ci dderbyn y brechiad. Rhaid i hyn gael ei gadw gan y sefydliad am o leiaf 2 flynedd.

I gael eithriad rhag derbyn brechiadau LEPTO a PHESWCH Y CŴN rhaid cael tystiolaeth gan y milfeddyg bod y ci wedi cael adwaith niweidiol neu eich bod wedi cael cyngor na ddylai'r ci dderbyn y brechiad a rhaid i'r sefydliad gadw'r dystiolaeth am o leiaf 2 flynedd.

Ar gyfer yr holl frechiadau sydd wedi'u heithrio uchod:

Oherwydd bod mwy o risg, mae'n rhaid i berchnogion unrhyw gŵn eraill sydd i fod i gael eu lletya ar yr un pryd â’r ci sydd heb ei frechu gael gwybod am y sefyllfa ac am y risgiau i'w ci nhw. Yna mae'n rhaid iddyn nhw lofnodi ymwadiad i ddweud eu bod wedi cael gwybod am y risgiau ac yn eu derbyn ac yn parhau i ddymuno i'w ci gael ei letya yn y sefydliad. Dylid cadw’r ymwadiad hwn am o leiaf 2 flynedd. Dylid dilyn y broses hon bob tro y mae ci heb ei frechu yn cael ei letya.

10.4 Rhaid gofyn am brawf rheoli parasitiaid a'i gofnodi.

10.5 Dylid cael cyngor gan filfeddyg os oes arwyddion o glefyd, anaf neu salwch. Os oes ci yn sâl neu wedi ei anafu, dylid dilyn cyfarwyddiadau milfeddyg ar sut i’w drin, yn llym.

**Ynysu**

10.6 Rhaid darparu 1 cyfleuster ynysu. Efallai y bydd angen cyfleusterau ynysu ychwanegol os yw'r arolygydd yn teimlo bod maint y safle yn gofyn am fwy.

10.7 Mewn cyfleusterau sy’n bodoli eisoes, dylai’r cyfleusterau ynysu gydymffurfio â’r gofynion lletya eraill, ond rhaid iddynt fod ar wahân ac wedi’u hynysu oddi wrth y prif gybiau. Rhaid iddynt fod yn 3 metr (10 troedfedd) o leiaf. (Gweler rheoli tymheredd hefyd). Dylid defnyddio'r offer ar gyfer glanhau'r cyfleuster hwn ar wahân. Rhaid defnyddio offer nyrsio ataliol, gan gynnwys trochfeydd traed, menig, ffedogau ayb a'u gwaredu.

10.8 Dylid darparu cyfleusterau digonol i atal clefydau heintus rhag lledaenu rhwng y cybiau ynysu a’r cybiau eraill.

10.9 Dylid golchi dwylo ar ôl gadael y cyfleusterau ynysu, cyn ymweld â’r cybiau eraill, neu gyffwrdd anifeiliaid eraill.

## 11 Cofrestru

11.4 Dylid cadw cofrestr o bob ci sy’n lletya. Dylai’r wybodaeth sy’n cael ei chadw gynnwys y canlynol:-

**-**Dyddiad cyrraedd
**-**Enw’r ci, unrhyw system adnabod fel rhif microsglodyn neu datŵ
**-**Disgrifiad, brîd, oedran a rhyw'r ci

-Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu geidwad. Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cyswllt yn ystod y cyfnod lletya
-Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci
-Dyddiad gadael disgwyliedig a'r dyddiad gadael
-Gofynion iechyd, lles a maeth (gan gynnwys cofnod brechu)

11.5 Rhaid cadw'r gofrestr am leiafswm o 24 mis, a dylai gael ei chadw yn y fath fodd fel bod swyddog awdurdodedig yn gallu cael gafael ar y wybodaeth yn hawdd.

11.6 Os yw'r cofnodion ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi wrth gefn. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i aelodau allweddol o staff y sefydliad ar bob adeg.

## 12 Adnabod Cybiau

12.4 Rhaid cofnodi pob cwb (e.e. eu rhifo) yn glir, a chael system yn ei lle sy'n sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am y ci yn y cwb hwnnw ar gael yn hawdd. Mae hyn yn cynnwys cybiau ynysu.

## 13 Goruchwyliaeth

13.4 Rhaid i berson addas a phriodol fod ar gael bob amser i oruchwylio a delio ag argyfyngau pan fydd cŵn yn lletya ar y safle.

13.5 Ni ddylid byth gadael plant dan 16 oed yn gyfrifol am y cŵn ar unrhyw adeg.

13.6 Dylid ymweld â'r cŵn yn rheolaidd fel y bo gofyn o ran eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles.

13.7 Dylid cadw casgliad addas o benffrwynau o feintiau gwahanol, a dyfais dal cŵn addas ar y safle.

13.8 Rhaid cadw blwch cymorth cyntaf llawn sy’n addas i’w ddefnyddio ar gŵn ar y safle, lle mae’n hawdd cael gafael arno.

**14 Rhagofalon Tân**

14.4 Rhaid cymryd camau priodol i warchod y cŵn rhag ofn bod tân neu argyfyngau eraill.

14.5 Rhaid llunio cynllun gadael adeilad mewn argyfwng priodol a gweithdrefn rhybudd tân, a rhoi copi ohonynt ar y safle. Rhaid i hyn gynnwys cyfarwyddiadau ynglŷn â lle y dylid symud cŵn yn achos tân neu argyfwng arall.

14.6 Rhaid darparu offer diffodd tân yn unol â chyngor a roddwyd gan y Swyddog Atal Tân, rhaid cynnal yr offer hwn a'i adnewyddu yn unol â gofynion y gwneuthurwr neu ganllawiau'r Swyddog Tân. Dylai fod diffoddwr tân a synhwyrydd mwg cyfredol o leiaf ym mhob bloc o gybiau.

14.7 Rhaid cynnal a chadw offer a chyfarpar trydanol mewn cyflwr diogel. Rhaid rhoi dyfais torri cerrynt trydanol ymhob bloc o gybiau. Rhaid cynnwys yr holl offer trydanol ar dystysgrif gosod trydanol neu gael brawf PAT at bob eitem trydanol.

14.8 Ni ddylid rhoi offer gwresogi mewn lleoliad, neu eu gosod mewn modd a allai greu perygl o dân, neu berygl i gŵn.

14.9 Dylid cymryd camau i sicrhau nad oes gormod o wres yn cronni mewn un man, a allai achosi tân.

14.10 Rhaid bod modd seinio larwm yn hawdd yn achos tân neu argyfwng arall.

## Cyfoethogi

**14.8** Rhaid trafod cyfoethogi gyda phob perchennog. Gan gynnwys ar gyfer y cŵn hynny y mae'r perchennog yn adrodd nad ydynt yn 'chwarae'. Mae eu hymddygiad mewn amgylchedd cybiau’n dueddol o newid a gall gweithgareddau cyfoethogi leddfu straen a lleihau diflastod.

Gallai hyn fod ar ffurf teganau, cyfarpar yn y maes ymarfer, radio sy'n cael ei adael ymlaen ac ati. Rhaid trafod hyn a chytuno ymlaen llaw gyda'r perchnogion cyn lletya.

Gallwch ofyn i berchnogion ddarparu eu teganau eu hunain neu eu darparu fel sefydliad, ond rhaid glanhau pob eitem a'i diheintio rhwng cŵn gyda chynnyrch glanhau sydd wedi’i gymeradwyo gan DEFRA.